**<u>Yn y Fan a'r Lle.</u>**

Clymodd Mair ei ffedog fel cortyn bêls am ei chanol wrth i'r olew ar y ffriwr ddechrau poeri ei wres. Roedd mart Castell Newy' yn tueddu i fod yn brysur a phobl yn barod iawn i wario'u harian ar fwyd, os nad ar ddim byd arall. Gwenodd.

Yn ymgynnull wrth y fan fwyd roedd yr early birds arferol: Keith Tŷ Canol, Gwynfor Cefn Isa', Islwyn Maes Hyfryd a Huw Ffynnon Graig. Roedd y pedwar fel ieir yn clochdar ben bore am hwn, llall ac arall. Roedd y browlan yn bwysig, yn bwysicach na'r bidio, yn aml iawn. Clustfeiniodd Mair yn ofalus wrth baratoi paneidiau'r pedwar. Câ'i wefr o wrando ar eu siarad bras: y dwli a'r diawlo, y cario clecs a'r cwyno, y rhegi a'r rhybuddio. Gwyddai eu cyfrinachau i gyd. Ond byddai hi byth yn ailadrodd. Roedd hin' rhy ffyddlon i hynny.

'Ges i diced da'r diawl, tyl, sefnti pownd!' Roedd yr hen Gwynfor wedi cal cam, fel arfer.

'Pryd?'

'Fan hyn, w'thnos dd'wetha!' meddai'n goch-biws a'r tri arall yn glustie i gyd. 'Weles i'r boi yn hwpo fe ar y *dash*, a wedes i, "wow, wow, wow, hang on now, gw'boi. I don't understand the blinking machine, and anyway, I don't have the contacts to pay for it"… Ch'mod, yr hen *thing* newy' 'na.'

'O, yffarn dân, ges i ffwda  'da hwnna bore 'ma,' ychwanegodd Keith at y cwyno.

'Wa'th na 'yn wedyn 'de. Wedodd y diawl wrtha i bo' fi'n lwcus, "You've taken up two spaces," medde fe, "one with your pick-up and one with your trailer, so technically, I should've given you a £140 fine."' Wfftiodd yn ddramatig a'i ddyrnau'n wyn wrth ail-fyw'r profiad.

"Daylight robbery, achan! Bydde dim point bo' ti 'di dod i'r mart, bois bach," cefnogodd Keith.

Prysurodd Mair i baratoi'r paneidiau a gosod y cwpanau polystyrene un ar ôl y llall ar y cownter.

Erbyn hyn, roedd Aled Meini Gwyn wedi ymuno â'r Cwac Pac. Roedd yn ifancach o lawer na'r gweddill ond y caledwch wedi cydio yn ei wyneb yn yr un modd.

'Shw' wyt ti, Aled?' Cyfarchodd Huw ei gymydog.

'Odw. Gwd.'

'Shwt a'th hi 'da chi w'thnos d'wetha', 'de? *All clear*?'

'Fifty-two. Gone. Shot dead.' Llyncodd y pedwar eu te berwedig. Doedd dim ffrils wrth y ffeithiau.

'Pam y'n ni'n bothran, eh? Pam y'n ni'n blydi bothran.' Estynnodd Aled am ei baned oddi ar y cownter. Gwasgodd y cwdyn te a'i daflu i ben y domen ddiflas ar y bwrdd plastig. Parhaodd ei gwestiwn yn agored.

'Nawr 'te, pwy o'dd a bacwn a wy?' Camodd Islwyn a Keith ymlaen gan dwrio fel moch daear i berfeddion eu pocedi am arian mân. Roedd y ddau wedi lapio'u bysedd o fewn eiliadau, a'r baw dan eu hewinedd wedi sticio fel gofid.